GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
CAU FFORDD DROS DRO
PENARTH GŴYL
DYDD GWENER 15 I DYDD SADWRN 16 GORFFENNAF 2022

RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN fod Cyngor Bro Morgannwg wedi gwneud gorchymyn dan Adran 16A Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel a ganlyn:-

DRWY HYN, yn ystod oriau penodol o'r diwrnod ac ar y dyddiad a nodir yng ngholofn 1 yr Atodlen caiff y strydoedd neu'r rhannau o'r strydoedd a nodir yng ngholofn 2 yr Atodlen honno eu defnyddio i gynnal digwyddiad perthnasol fel y disgrifir yn Adran 16(A) (1) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, mae'r Cyngor, yn unol â'r pwerau a ddyfernir iddo dan Adran 16A Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, yn **GORCHYMYN AC YN CYFARWYDDO**, er mwyn hwyluso'r gwaith o gynnal y digwyddiad, galluogi aelodau'r cyhoedd i wylio'r digwyddiad hwnnw a lleihau unrhyw effaith ar draffig a achosir gan y digwyddiad, cydymffurfiaeth â'r rheoliad canlynol:-

Y CYFYNGIR, ac eithrio'r hyn y darperir ar ei gyfer yn y gorchymyn, y defnydd o'r strydoedd neu rannau o'r strydoedd a nodir i draffig cerbydau, gan gynnwys beiciau pedal, ac eithrio i gerbydau'r Gwasanaethau Brys, rhwng yr oriau a nodir yng ngholofn 3 o'r atodlen a nodir. Y gosb am beidio â chydymffurfio â'r rheoliad hwn fydd dirwy o hyd at £1000.00

Atodlen

Colofn 1	**Colofn 2**	**Colofn 3**
O dydd Gwener 15 Gorffennaf 2022 tan ddydd Sadwrn 16 Gorffennaf 2022	**Yr Esplanade**, o Gyffordd Bridgeman Road i Cliff Hill **Cliff Hill a Cliff Road** o'r Esplanade i Gyffordd Marine Parade	O 6.00pm ar ddydd Gwener 15 Gorffennaf 2022 tan 11.59pm ar ddydd Sadwrn 16 Gorffennaf 2022

Bydd Arwyddion ar gyfer Gwyriad yn cael eu gosod

Dyddiedig 30 Mehefin 2022

Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA